Cael trafferth darllen y cylchlythyr yma? Darllenwch ef yn eich porwr.

bwletin
gweinyddiaeth etholiadol

Rhifyn 183 (Cymru) - 3 Mai 2017

Etholiadau Mai 2017: canllawiau a chefnogaeth ar gael drwy gydol wythnos yr etholiad

Yn Bwletin 177 rhoddwyd manylion ein gwasanaeth cyngor ffôn tu allan i oriau swyddfa i ddelio gydag ymholiadau gweinyddiaeth etholiadol yn y cyfnod cyn ac yn syth ar ôl yr etholiadau.

Byddwn yn parhau i allu rhoi canllawiau a chefnogaeth i chi trwy gydol wythnos yr etholiad; isod mae manylion sut allwch gysylltu gyda ni ar y diwrnod pleidleisio a rhwng 4 a 7 Mai.

Diwrnod pleidleisio
Rhwng 6:30am a 6:30pm - ffoniwch 0333 103 1929.
Ar ôl 6:30pm - ffoniwch 07917 038 553. Bydd y rhif hwn hefyd yn cael ei staffio ar gyfer unrhyw ymholiadau brys trwy gydol y nos.

Dydd Gwener 5 Mai
Rhwng 8:30am a 5:30pm - ffoniwch 0333 103 1929.
Ar ôl 5:30pm - ffoniwch 07917 038 553.

Dydd Sadwrn 6 Mai a dydd Sul 7 Mai
Ffoniwch 07917 038 553. Bydd y rhif hwn hefyd yn cael ei staffio drwy gydol y penwythnos ar gyfer unrhyw ymholiadau brys.

Etholiadau Mai 2017: Arolwg Rheoli Gwybodaeth

Fel rhan o'n hymdriniaeth o fonitro etholiad cyffredinol Senedd y DU, byddwn yn gofyn i chi am wybodaeth o ran sut y byddwch yn cynnal y bleidlais yn eich ardal.

Fel gydag etholiadau blaenorol, bydd yn golygu arolwg byr ynghylch eitemau megis rhoi cardiau pleidleisio a phleidleisiau post, niferoedd o orsafoedd pleidleisio a staff, ac amseriad a lleoliad dilysu a'r cyfri.

Bydd y wybodaeth hon yn ein helpu i gael darlun clir o'r trefniadau sydd yn eu lle ledled Prydain Fawr ar gyfer darparu etholiad cyffredinol Senedd y DU ac yn rhoi ystadegau allweddol i'w

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Etholiadau Mai 2017: Atgoffa am y canllawiau a chefnogaeth ar gael drwy gydol wythnos yr etholiad

Atgoffa sut i gysylltu gyda'r Comisiwn am ganllawiau a chefnogaeth rhwng 4 a 7 Mai.

Etholiadau Mai 2017: Arolwg Rheoli Gwybodaeth

Rhoi gwybod ymlaen llaw am arolwg fydd yn gofyn am wybodaeth rheoli.

Etholiad cyffredinol Senedd y DU Mehefin 2017: rhoi pleidleisiau post

Ystyriaethau o ran amseriad pecynnau pleidleisio post ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU.

Etholiad cyffredinol Senedd y DU Mehefin 2017 - adnoddau gwybodaeth i bleidleiswyr

Trosolwg o a dolenni i adnoddau gwybodaeth i bleidleiswyr ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU.

Etholiadau Mai 2017: hysbysiadau gwrthod dynodyddion pleidleisiau post

Cadarnhad bod y Cwestiynau Cyffredin o ran hysbysiadau gwrthod dynodyddion pleidleisiau post bellach wedi'u cyhoeddi.

defnyddio gyda'r cyfryngau ac ymholwyr eraill yn ymatebol ac yn rhagweithiol.

Byddwn yn anfon dolen at yr arolwg yma dros e-bost ar 9 Mai, gyda dyddiad dychwelyd o 15 Mai. Ry'n ni'n cydnabod bod hyn yn amser prysur i chi a ry'n ni'n ddiolchgar am eich cefnogaeth yn darparu'r wybodaeth hon.

Etholiad cyffredinol Senedd y DU Mehefin 2017: rhoi pleidleisiau post

Fel y gwyddoch, ym mhob etholiad, mae'n rhaid i bleidleisiau post gael eu hanfon cyn gynted ag sy'n ymarferol, sydd yn ymarferol yn golygu unrhyw bryd ar ôl i'r manylion i'w hargraffu ar y papurau pleidleisio gael eu cadarnhau h.y. ar ôl y dyddiad cau ar gyfer tynnu enwau yn ôl, sef, ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU, 4pm addydd Iau 11 Mai.

Fel nodir yn Rhan D ein canllawiau craidd i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol), dylech gael trefniadau yn eu lle i sicrhau bod etholwyr yn derbyn eu papurau pleidleisio post cyn gynted â phosibl a blaenoriaethu unrhyw bleidleisiau post sydd angen eu hanfon dramor – gan gynnwys cyfeiriadau BFPO - er mwyn gwneud y mwyaf o'r amser dydd gan y pleidleiswyr post i dderbyn, cwblhau a dychwelyd eu pleidlais bost.

I'ch cefnogi gyda rhoi'r gwasanaeth gorau posibl i bleidleiswyr a rheoli ei disgwyliadau o ran beth allant ddisgwyl a phryd - yn arbennig oherwydd yr heriau o ran rheoli cynhyrchu pleidleisiau post - ry'n ni wedi amlinellu rhai ystyriaethau allweddol isod y bydd angen i chi eu hystyried wrth wneud a gweithredu penderfyniadau ar amseriad anfon pleidleisiau post cyn etholiad 8 Mehefin.

- Cynllun cyfathrebu: nodwch sut y byddwch yn rhoi gwybod i bleidleiswyr absennol ran y dyddiad posibl ar gyfer anfon pleidleisiau post i reoli eu disgwyliadau. Bydd hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer ymgeiswyr newydd fel eu bod yn gallu penderfynu p'un a bydd pleidleisio post yn gweithio ar eu cyfer nhw yn etholiad cyffredinol Senedd y DU neu os byddai pleidleisio post yn fwy addas i'r amgylchiadau. Er enghraifft, gallech gyhoeddi dyddiadau danfon drwy gyfryngau cymdeithasol, cylchlythyron lleol neu wefan y cyngor.
- Anfon pleidleisiau post i bleidleiswyr unigol sydd wedi dweud y byddant ar wyliau yn ystod y cyfnod anfon arfaethedig: Nodi sut y byddwch yn ymateb i sefyllfaoedd lle byddwch yn ymwybodol bod un neu fwy o etholwyr yn mynd i fod ar wyliau neu i ffwrdd ar fusnes erbyn bod y swp nesaf o bleidleisiau post yn cael eu hanfon, gan gynnwys rhoi proses yn ei lle i sicrhau eich bod yn gallu anfon pleidleisiau post ychwanegol sydd heb eu trefnu. Er enghraifft, os
- Sut fyddwch chi'n ymateb i (y posibilrwydd o lefel uchel o) ymholiadau gan bleidleiswyr ynghylch eu pleidleisiau post: ystyriwch sut y byddwch yn sicrhau bod y rheiny sy'n rheoli ymholiadau yn gallu rhoi gwybodaeth bwysig i etholwyr.

Etholiad cyffredinol Senedd y DU Mehefin 2017: cyfeirnodau cyfreithiol yn ein canllawiau o ran papurau pleidleisio, ffurflenni a hysbysiadau eraill

Diweddaru rhannau C a D ein canllawiau i Swyddogion Canlyniadau i gynnwys cyfeirnodau i reolau diwygio a rheoliadau ar gyfer rhai ffurflenni a hysbysiadau rhagnodedig.

Rydym yn cyhoeddi bwletinau yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau'r gorffennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma.

Gallwch hefyd danysgrifio i'n *cylchlythyr Gweinyddiaeth Etholiadol*.

Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau staff yn eich tîm. Bydd hyn yn helpu i ni sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.

Etholiad cyffredinol Senedd y DU Mehefin 2017 - adnoddau cofrestru pleidleiswyr

Mae ein hadnoddau i annog cofrestru pleidleiswyr bellach ar gael ar wefan dybleidlaisdi.co.uk. Cofiwch eu rhannu gyda'ch tîm cyfathrebu er mwyn iddyn nhw eu rhannu gyda sianeli yn lleol.

Fel nodwyd yn , bydd ein ymgyrch hysbysebu am bythefnos i annog cofrestru pleidleiswyr yn lansio ddydd Llun 8 Mai. I osgoi drysu pleidleiswyr, ni fyddwn yn rhannu ein hadnoddau ar gyfryngau cymdeithasol nes ar ôl y diwrnod pleidleisio ar gyfer etholiadau Mai 2017, a hoffem eich annog chi i wneud yr un modd.

Bydd mwy o wybodaeth am ein hymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd ar gael drwy'r Gofrestr. Os nad ydych wedi tanysgrifio, gallwch wneud yma.

Ymgyrch tramor

Mae ein hymgyrch i annog dinasyddion y DU sy'n byw tramor i gofrestru i bleidleisio bellach wedi cychwyn. Ry'n ni'n targedu pobl mewn 98 o wledydd ledled y byd drwy Facebook. Ry'n ni hefyd wedi creu adnoddau i chi eu rhannu i godi ymwybyddiaeth ymysg pobl sy'n byw tramor. Bydd ein hysbysebion yn targedu personél y lluoedd arfog sy'n gwasanaethu tramor yn cychwyn ochr yn ochr â'n hymgyrch ledled y DU o 8 Mai.

Mae'r negeseuon ar dybleidlaisdi.co.uk yn cynghori etholwyr tramor bod angen iddynt sicrhau eu bod wedi diweddaru eu cofrestriad lle mae gofyn iddynt wneud i sicrhau eu bod yn gallu pleidleisio ar 8 Mehefin.

.....

Etholiadau Mai 2017: hysbysiadau gwrthod dynodyddion pleidleisiau post

Yn Bwletin 182 rhoddwyd canllawiau ar roi hysbysiadau gwrthod dynodyddion pleidleisiau post ar ôl etholiadau Mai 2017, a chynhwyswyd dolen i'r hysbysiadau gwrthod dynodyddion pleidleisiau post templed. Gallwn bellach gadarnhau bod y Cwestiynau Cyffredin ar hysbysiadau gwrthod pleidleisiau post ar gael i'ch cefnogi chi a'ch staff yn ymateb i unrhyw ymholiadau gan etholwyr sydd wedi derbyn hysbysiad.

.....

Etholiadau Mai 2017: cyfeirnodau cyfreithiol yn ein canllawiau o ran papurau pleidleisio, ffurflenni a hysbysiadau eraill

Mae ein canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau yn cynnwys cyfeirnodau cyfreithiol. Mae'r cyfeirnodau yn ein canllawiau fel arfer i'r ddeddfwriaeth wreiddiol fel y'i diwygiwyd, ond nid ydym yn dyfynnu yn benodol y ddeddfwriaeth diwygio ym mhob achos. Fodd bynnag, i gynorthwyo Swyddogion Canlyniadau i gynhyrchu'r fersiynau cywir o ffurflenni a hysbysiadau, ry'n ni bellach wedi diweddaru ein canllawiau i gynnwys cyfeirnodau penodol i unrhyw reolau neu reoliadau diwygio yn yr achosion hynny lle mae ffurflen neu hysbysiad rhagnodedig - nad ydynt yn darparu templed ar ei gyfer - wedi ei ddiweddaru ers i'r ddeddfwriaeth wreiddiol gael ei phasio.

Ry'n ni felly wedi diweddaru rhannau C a D o'n canllawiau i helpu Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) a gweinyddwyr etholiadol gael mynediad at beth sydd ei angen i gynhyrchu'r ffurflenni a'r hysbysiadau canlynol:

- Cardiau pleidleisio
- Papur pleidleisio (gan gynnwys cefn y papur pleidleisio)
- Datganiad pleidleisio post
- Rhestr rhifau cyfatebol (gorsaf bleidleisio a phost)
- Canllawiau ar gyfer hysbysiad pleidleiswyr
- Cyfarwyddiadau ar gyfer hysbysiad pleidleiswyr

.....

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru

Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Ffôn: 0333 103 1929

Textphone: 18001 020 7271 0500

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk

© Y Comisiwn Etholiadol 2017© Y Comisiwn Etholiadol 2017